Rhif: WG29767

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Rhaglen o'r newydd ar gyfer Dileu TB

Dyddiad cyhoeddi: 18 Hydref 2016
Camau gweithredu gofynnol: Ymatebion erbyn 10 Ionawr 2017

OGL © Crown Copyright

Trosolwg

Diben yr ymgynghoriad hwn yw rhoi manylion am gynigion i ddiwygio'r Rhaglen Dileu TB. Mae hyn yn cynnwys sefydlu dull rhanbarthol i deilwra gwahanol fesurau rheoli ac atal yn y dyfodol agos.

Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 10 Ionawr 2016. Gallwch ymateb drwy'r post i:

Tîm TB
Swyddfa'r Prif Filfeddyg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Drwy e-bost i: bovinetb@wales.gsi.gov.uk

Ar ein gwefan:
https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/rhaglen-or-newydd-ar-gyfer-dileu-tb

Ieithoedd a fformatau eraill

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill. Ffoniwch ni ar 0800 5283300 neu e-bostiwch bovinetb@wales.gsi.gov.uk i ofyn am gopi. Bydd hi'n cymryd tua phythefnos i baratoi'r copi ac iddo eich cyrraedd.

Diogelu Data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn

eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolion, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Geirfa

Mae geirfa o dermau a ddefnyddiwyd yn yr ymgynghoriad hwn yn Atodiad B

Rhagair gan Ysgrifennydd y Cabinet

Un o nodau hirdymor Llywodraeth Cymru yw dileu TB buchol o Gymru. Ers ymgymryd â'm swydd rwyf wedi bod yn benderfynol o wneud popeth o fewn fy ngallu i ddileu'r clefyd hwn sy'n cael effaith ariannol a chymdeithasol sylweddol ar fusnesau ffermio a'r gymuned wledig ehangach. Mae'n glefyd costus iawn i'r Llywodraeth hefyd o ran talu am brofion TB a rhoi iawndal i geidwaid anifeiliaid y mae'n rhaid eu lladd oherwydd TB. Milhaint yw TB buchol sy'n golygu y gall drosglwyddo o anifeiliaid i bobl. Er bod y risg i iechyd cyhoeddus yn cael ei gadw'n isel drwy brofi gwartheg yn rheolaidd, pasteureiddio llaeth ac archwilio lladd-dai, mae'n rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i leihau bygythiad TB buchol i'r cyhoedd.

Dros y blynyddoedd diwethaf cafwyd rhywfaint o gynnydd tuag at gyflawni ein nod, gyda thuedd ar i lawr yn yr achosion newydd o TB. Yn 2009, cyn cyflwyno profion blynyddol, cafwyd 1,186 o achosion newydd o TB. Y llynedd, cafwyd 837 o achosion newydd sy'n ostyngiad o 29%. Dros yr un cyfnod gwelwyd gostyngiad o 31% yn nifer y gwartheg a laddwyd oherwydd TB. Mae'r cynnydd a wnaed o dan y strategaeth gyfredol wedi bod yn addawol, ond rwy'n awyddus i gyflymu'r cynnydd er mwyn cyflawni ein hod hirdymor a phennu rhai targedau uchelgeisiol.

A ninnau wedi bod yn profi pob buches yn flynyddol ers bron i saith mlynedd bellach, rydym wedi datblygu set ddata gynhwysfawr sy'n dangos gwir sefyllfa'r clefyd ledled y wlad. Rydym yn gwybod nad yw'r achosion wedi'u dosbarthu yn union yr un fath ledled Cymru ac mae ein tîm o weithwyr milfeddygol proffesiynol yn yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) wedi nodi patrymau gwahanol o'r clefyd ledled y wlad. Mae canlyniad y gwaith hwn wedi caniatáu i ni gael gwell dealltwriaeth o'r ffactorau risg allweddol sy'n gysylltiedig â phob ardal ac rwy'n teimlo mai nawr yw'r amser i fabwysiadu dull wedi ei dargedu'n well i fynd i'r afael â'r clefyd mewn gwahanol ardaloedd, yn seiliedig ar bedair egwyddor sylfaenol rheoli clefyd heintus (ei gadw allan, ei ddarganfod yn gyflym, ei rwystro rhag lledaenu, cael gwared arno).

Mae ein fframwaith strategol cyfredol ar gyfer Dileu TB yng Nghymru yn dod i ben eleni ac rwy'n credu y dylai'r dull rhanbarthol o ddileu TB fod yn ganolog i'n Rhaglen o'r Newydd ar gyfer Dileu TB. Bydd y mesurau i'w defnyddio ym mhob ardal yn allweddol os ydym i lwyddo ac rwy'n awyddus i gael barn rhanddeiliaid ar ein cynigion. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys nifer o gynlluniau eraill sydd ar y gweill yn y dyfodol i fynd i'r afael â'r clefyd mewn gwartheg.

Rwyf o'r farn bod rhanddeiliaid yn allweddol ar gyfer llunio, llywio a chyflawni ein dull o ddileu TB yn y dyfodol. Ar ôl ymgynghori ac ystyried yr holl sylwadau a gwybodaeth berthnasol arall rwy'n bwriadu cyhoeddi Rhaglen o'r Newydd ar gyfer Dileu TB yng ngwanwyn 2017.

Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Hydref 2016

Y sefyllfa ar hyn o bryd

Sefydlwyd y Rhaglen Dileu TB yn 2008 i gyflawni'r nod hirdymor o ddileu TB buchol. Mae'n ddull cynhwysfawr sydd wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â phob ffynhonnell sy'n gallu cludo'r haint TB:

- Gwartheg
- Anifeiliaid nad ydynt yn rhai buchol fel lamaod ac alpacod
- Bywyd gwyllt yn cynnwys moch daear a cheirw.

Diben prif elfennau'r rhaglen yw cyfyngu ar ledaeniad yr haint gan wartheg a lliniaru effaith hynny. Mae hyn yn cynnwys mesurau goruchwylio a rheoli sydd wedi'u cynllunio i nodi gwartheg heintiedig cyn gynted â phosibl a lleihau'r perygl o'r clefyd yn lledaenu. Hyd at 2008, roedd pa mor aml roedd buchesi'n cael eu profi yn amrywio rhwng profion blynyddol a phrofion bob pedair blynedd a'r penderfyniad yn cael ei wneud ar sail cyfran y buchesi ym mhob plwyf a oedd wedi'u heintio yn flaenorol. Yn ystod Archwiliad Iechyd TB Cymru, profwyd pob buches yng Nghymru dros gyfnod o 15 mis (Hydref 2008 i Ragfyr 2009) i roi gwell dealltwriaeth i ni o sefyllfa'r clefyd ledled y wlad. Gwelsom fod y clefyd yn bresennol mewn ardaloedd lle'r oedd buchesi'n arfer cael eu profi bob pedair blynedd. O ganlyniad i ganfyddiadau Archwiliad Iechyd TB Cymru, cyflwynwyd trefn brofi TB flynyddol ar gyfer buchesi i gynnal lefel uchel o oruchwyliaeth. Mae'n rhaid cynnal Prawf Cyn Symud ar wartheg hefyd cyn y gellir eu symud o fferm yng Nghymru (er bod rhai eithriadau). Mae'r sefyllfa hon wedi aros yr un fath ledled Cymru ers Ionawr 2010 waeth beth fo sefyllfa'r clefyd yn y rhanbarth.

Yn 2012, cyhoeddwyd y Fframwaith Strategol ar gyfer Dileu TB Gwartheg a oedd yn nodi ein hagenda ar gyfer dileu. Roedd yn cynnwys gwella'r gwaith o reoli achosion hirdymor, darparu gwybodaeth am fuchesi sydd wedi'u heffeithio â TB a newid y system iawndal i hyrwyddo arferion gorau. Roedd hefyd yn cynnwys cynnal prosiect brechu moch daear yn yr Ardal Triniaeth Ddwys yn y de-orllewin, ardal sydd ag un o'r cyfraddau uchaf o TB yn y Deyrnas Unedig. Ar ôl pedair blynedd llwyddwyd i roi dros 5,500 dos o'r brechlyn.

Sefyllfa'r clefyd

Ers i'r Rhaglen Dileu TB ddechrau yn 2008 rydym wedi gweld rhywfaint o gynnydd tuag at gyflawni ein nod gyda thuedd ar i lawr yn nifer yr achosion newydd o TB. Mae'r ffigurau misol o 2008 i Fehefin 2016 fel a ganlyn:

Ffigur 1: Achosion newydd o TB.



Mae Ffigur 1 yn dangos bod achosion newydd mewn buchesi (a gyrhaeddodd benllanw yn 2008 gyda 1,198 o achosion newydd) wedi gostwng. Ystadegau TB misol Defra fel roeddynt ar 14 Medi 2016

Ffigur 2: Gwartheg a laddwyd oherwydd TB.



Mae Ffigur 2 yn dangos bod nifer y gwartheg a laddwyd oherwydd TB wedi cyrraedd penllanw yn 2009 (11,671 yn y flwyddyn galendr) cyn gostwng yn sylweddol yn 2013 a chynyddu unwaith eto. Mae'r cynnydd hwn yn deillio'n bennaf o'n newidiadau diweddar i'n mesurau rheoli sydd â'r nod o wella sut rydym yn canfod a dileu'r clefyd mewn buchesi (er enghraifft, cynyddodd nifer y profion gwaed gama interfferon 40% rhwng 2014 a 2015). Ffynhonnell: Ystadegau TB misol Defra fel roeddynt ar 14 Medi 2016.

Rhesymau dros newid

Mae ein Fframwaith Strategol cyfredol ar gyfer Dileu TB gwartheg yng Nghymru yn dod i ben yn 2016. Dros y 4 blynedd diwethaf casglwyd llawer iawn o wybodaeth am y clefyd yng Nghymru. Dyma'r amser priodol i bwyso a mesur y mesurau cyfredol ac ystyried dulliau newydd a gwell o fynd i'r afael â'r clefyd er mwyn datblygu cam nesaf y Rhaglen Dileu TB.

Mae canlyniad gwaith y Tîm Epidemioleg yn APHA yn ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o lefelau amrywiol y clefyd ledled Cymru a'r ffactorau risg allweddol. Bydd hyn yn ein galluogi i fabwysiadu dulliau sy'n targedu'n fwy penodol ac yn ategu ein mesurau rheoli cenedlaethol. Mewn rhai ardaloedd o'r wlad, yn y gogledd-orllewin yn arbennig, mae'r mesurau goruchwylio a rheoli cyfredol wedi llwyddo i atal y clefyd rhag dod yn gyffredin. Y flaenoriaeth i'r ardal hon yw atal cyflwyno'r clefyd drwy symud gwartheg heintiedig heb eu darganfod. Mewn ardaloedd eraill o'r wlad mae'r clefyd wedi datblygu'n endemig ac mae'n anodd ei ddileu o ardaloedd lle mae gwartheg a bywyd gwyllt wedi'u heintio ac yn gallu heintio ei gilydd.

Mae TB yn dueddol o effeithio'n wahanol ar ffermydd godro a ffermydd eidion. Ni wyddom i sicrwydd beth yw'r rhesymau am hyn ond mae buchesi godro yn dueddol o fod yn fwy ac yn fwy cymhleth a gall eu rheoli'n ddwys ac o dan do gynyddu'r potensial i ledaenu o fewn y fuches gan eu bod yn rhannu'r un aer, cafnau bwydo a dŵr. Gall hyn arwain at anifeiliaid heintiedig yn aros yn y fuches a halogi'r amgylchedd sy'n golygu y bydd gwartheg yn agored i haint parhaus. Yn ogystal â hyn, mae'n anodd rheoli a dileu clefyd mewn buchesi mawr sydd wedi'u rhannu dros sawl safle gan fod llawer o symud o le i le. Mae buchesi sugno eidion ar y llaw arall yn dueddol o fod yn llai, yn cael eu ffermio'n llai dwys ac o dan bwysau cynhyrchu is. Mae anifeiliaid pesgi eidion fel arfer yn bwyta diet egni uchel (o dan do fel arfer) ond yn dueddol o fod yn anifeiliaid iau sy'n cael eu tewhau'n gyflym a'u symud o'r fferm i gael eu lladd. Mae'r math o fuchesi ym mhob ardal o Gymru'n cael effaith fawr ar sefyllfa'r clefyd yn lleol.

Drwy gael dull mwy rhanbarthol gallwn:

- Gyflwyno mesurau gwahanol mewn gwahanol ardaloedd yn dibynnu ar sefyllfa'r clefyd a'r perygl yn yr ardal honno
- Pennu targedau realistig ar gyfer pob ardal er mwyn sicrhau statws heb TB swyddogol.

Ein cynigion

Ar sail gwaith y Tîm Epidemioleg credwn fod modd rhannu Cymru yn dri chategori achosion TB eang: isel, canolradd ac uchel a bydd y gwahanol ardaloedd yn cael eu dynodi'n unol â hynny. Dyma'r meini prawf ar gyfer pob ardal:

- Ardal TB isel: Ardal ble mae llai na 0.2% o fuchesi wedi cael achos o TB mewn blwyddyn.

- Ardal TB canolradd: Ardaloedd lle mae llai na 5% ond mwy na 0.2% o fuchesi wedi cael achos o TB mewn blwyddyn.
- Ardal TB uchel: Ardaloedd lle mae mwy na 5% o fuchesi wedi cael achos o TB mewn blwyddyn.

Ffigur 3: Rhanbartholi TB Ardaloedd



Mae sefyllfa a pheryglon y clefyd yn wahanol ym mhob ardal. Trwy gael dull rhanbarthol byddwn yn gallu teilwra gwahanol ddulliau o reoli ac atal y clefyd ym mhob ardal. Bydd hyn

yn cynnwys dull newydd o brofi TB yn seiliedig ar risg. Mae Atodiad A yn cynnwys crynodeb byr o'r newidiadau arfaethedig.

Ardal TB Isel

Disgrifiad o'r ardal

Yr ardal yw y gogledd-orllewin sy'n cynnwys Ynys Môn, Gwynedd a gogledd-orllewin Clwyd. Buchesi eidion yw mwyafrif y buchesi gyda llawer o gynhyrchwyr yn prynu gwartheg stôr ac yn gwerthu gwartheg wedi'u pesgi. Mae mwyafrif y symudiadau o fewn yr ardal ei hun.

Sefyllfa gyfredol y clefyd

Lefel isel o'r clefyd a gafwyd yn yr ardal dros y blynyddoedd ac mae llai na 0.2% o fuchesi wedi cael achos o TB[1] dros y chwe blynedd ddiwethaf. Mae hyn yn agos at fodloni'r amodau ar gyfer statws heb TB swyddogol[2]. Mae tystiolaeth y prosiect epidemioleg yn dangos y canlynol ym mwyafrif yr ychydig o achosion o TB sy'n digwydd yn yr ardal:

- Nid yw'r clefyd yn lledaenu i fuchesi cyfagos;
- Nid yw'r clefyd yn lledaenu'n sylweddol o fewn buchesi;
- Nid yw'r clefyd yn dueddol o ddychwelyd i fuchesi ar ôl iddynt ddod yn rhydd o TB.

Beth sy'n ysgogi'r clefyd?

- Er bod yna ambell ardal wedi cael problemau TB mynych yn y gorffennol, nid yw'r clefyd wedi sefydlu ei hun yn yr ardal yn wahanol i rai ardaloedd eraill o Gymru.
- Mae'r mwyafrif, os nad pob un o'r achosion o TB yn yr ardal yn deillio o haint heb ei ddarganfod yn dod i mewn drwy symud gwartheg.
- Nid oes cronfa sylweddol gydnabyddedig o'r haint yn y boblogaeth bywyd gwyllt.
- Dim ond un mochyn daear marw gyda canlyniad positif sydd wedi ei ddarganfod yn yr ardal ers Tachwedd 2014.

Beth sydd angen ei wneud?

- Mae angen diogelu'r ardal rhag i TB gael ei gyflwyno drwy symud gwartheg ac ymdrin ag achosion newydd ar unwaith mewn modd effeithiol. Er mwyn gwneud hyn mae angen newid y mesurau rheoli gwartheg i sicrhau eu bod yn ddigonol i atal clefyd rhag cyrraedd yr ardal a dileu'r lefel isel o haint sy'n bodoli ar hyn o bryd.
- Hefyd, mae angen i geidwaid gymryd cyfrifoldeb am sefyllfa'r clefyd i ddiogelu statws ffafriol yr ardal hon, gan weithio tuag at ddileu TB.

Beth rydym yn gobeithio ei gyflawni

- Yr ardal hon yw'r ymgeisydd gorau ar gyfer bodloni'r amodau i fod yn ardal heb TB swyddogol ddynodedig. Yn wir, pe bai chwe achos yn llai wedi bod yn yr ardal dros y chwe blynedd ddiwethaf byddai wedi bodloni'r diffiniad statws heb TB swyddogol.

[1] Ac eithrio achosion heb eu cadarnhau ac achosion wedi'u cadarnhau a briodolwyd i symudiadau gwartheg heb dystiolaeth o ledaenu dilynol

[2] Yn ôl diffiniad Cyfarwyddeb y Cyngor 64/432/EEC, mae'n rhaid i ganran y buchesi sydd wedi'u cadarnhau fel rhai sydd wedi'u heintio â thwbercwlosis fod yn 0.1% neu lai y flwyddyn am chwe blynedd yn olynol ac i o leiaf 99.9% o fuchesi fod wedi sicrhau statws heb TB swyddogol bob blwyddyn am chwe blynedd yn olynol er mwyn i aelod-wladwriaeth neu ranbarth ennill statws heb TB swyddogol .

Ardal TB Canolradd (Gogledd)

Disgrifiad o'r ardal

Mae'r ardal yn y gogledd-orllewin ac yn cynnwys rhan o Glwyd nad yw wedi'i chynnwys yn yr Ardal TB Lefel Isel. Mae gan yr ardal hon gyfran uchel o fuchesi godro a gwartheg godro o gymharu ag ardaloedd eraill. Daw tua hanner yr holl symudiadau i'r ardal o'r siroedd cyfagos yn Lloegr (Swydd Gaer a Swydd Amwythig) sydd wedi'u dosbarthu yn 'Ardaloedd Risg Uchel'. Y rheswm am hyn mae'n debyg yw bod gan y siroedd hyn lawer o fuchesi godro hefyd a bod gan rai ffermydd dir o boptu'r ffin.

Sefyllfa gyfredol y clefyd

- Mae'r ardal yn ardal glefyd "ganolig" gyda thua 2% o fuchesi o dan gyfyngiadau oherwydd TB ar hyn o bryd.
- Rydym yn pryderu y gallai'r clefyd ddod yn gyffredin yn yr ardal.
- Mae'r achosion yn fyr fel arfer gydag ychydig o adweithyddion, sy'n anarferol am ardal odro gyda buchesi mawr yn bennaf. Un rheswm posibl am hyn yw'r defnydd o brofion gama interfferon i gael gwared ar anifeiliaid heintiedig yn gynnar.
- Mae cyfran uchel yn yr ardal o achosion sy'n codi eu pen eto o fewn 18 mis i godi'r cyfyngiadau o gymharu â'r rhan fwyaf o'r ardaloedd eraill.

Beth sy'n ysgogi'r clefyd?

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod mwyafrif yr achosion yn gysylltiedig â symud gwartheg i'r ardal o ardaloedd TB endemig Swydd Amwythig a Swydd Gaer. Mae hyn yn cynnwys:

- Mae'r gyfradd ailadrodd yn gymharol uchel ac mae ailgyflwyno'r clefyd drwy symud a phrynu gwartheg yn ymddangos fel pe bai'n ffactor arwyddocaol yn nifer yr achosion yn yr ardal h.y. achosion yn yr ardal o ganlyniad i symud/prynu.
- Mae mwyafrif y gwartheg sy'n symud i'r ardal yn dueddol o fynd i ffermydd ble byddant yn aros am gyfnod hir.
- Mae'r genoteip TB mwyaf cyffredin yn yr ardal yn rhannu gwasgariad cartref â Swydd Amwythig a de Swydd Gaer.
- Mae hyd byr yr achosion a nifer isel yr adweithyddion yn awgrymu bod y clefyd yn lledaenu o fewn y fuches ac mai isel yw'r pwysedd o ran y clefyd o du moch daear yn yr amgylchedd lleol.
- Nid oes unrhyw gronfa sylweddol gydnabyddedig o'r clefyd yn y boblogaeth bywyd gwyllt - mae dau fochyn daear a brofwyd yn bositif wedi eu canfod yr ardal fel rhan o'r arolwg cyfredol (Tachwedd 2014 - presennol) er gwaethaf llawer iawn o garcasau'n cael eu cyflwyno.

Beth sydd angen ei wneud?

- Mae angen diogelu'r ardal rhag i TB gael ei gyflwyno drwy symud gwartheg o ardaloedd clefyd uwch ac ymdrin â lefel y clefyd sydd eisoes yn bodoli yno. Er mwyn gwneud hyn mae angen newid y mesurau rheoli gwartheg i sicrhau eu bod yn ddigonol i atal clefyd rhag cyrraedd yr ardal a dileu'r haint sy'n bodoli ar hyn o bryd.
- Mae bioddiogelwch ar ffermydd yn bwysig a gallai brechu moch daear gyfrannu at helpu i atal y clefyd rhag dod yn gyffredin yn y boblogaeth moch daear.

Beth rydym yn gobeithio ei gyflawni

- Os yw sefyllfa'r clefyd yn yr ardal hon yn gwella, rhagwelwn y gallwn ystyried y bydd yn datblygu i fod yn Ardal TB Isel, ar y sail bod lefel y clefyd yn lleihau i lefel gymaradwy.

Ardal TB Canolradd (Canolbarth)

Disgrifiad o'r ardal

Mae'r ardal hon yn mynd trwy'r Canolbarth ac yn cynnwys rhannau o Forgannwg, dwyrain Sir Gaerfyrddin, gogledd Ceredigion a gogledd Powys. Dyma ardal o ucheldir yn bennaf sy'n cynnwys buchesi eidion bach.

Sefyllfa'r clefyd ar hyn o bryd

- Ardal clefyd canolig.
- Mae tua 2% o fuchesi o dan gyfyngiadau oherwydd TB ar hyn o bryd.

Beth sy'n ysgogi'r clefyd?

- Ymddengys bod symud gwartheg i'r ardal yn ffactor risg uchel ar gyfer cyflwyno TB;
- Mae llawer o achosion newydd yn cael eu canfod drwy brofion cyffiniol sy'n awgrymu bod TB hefyd yn lledaenu'n lleol drwy gysylltiad uniongyrchol neu anuniongyrchol gyda gwartheg neu fywyd gwyllt cyfagos;
- Er bod gan yr ardal rai cynefinoedd addas sy'n caniatáu i foch daear a bywyd gwyllt ffynnu, dim ond dau fochyn daear marw a welwyd yn yr ardal ers mis Tachwedd 2014 – presennol.

Beth sydd angen ei wneud?

- Mae angen diogelu'r ardal rhag i TB gael ei gyflwyno drwy symud gwartheg o ardaloedd clefyd uwch ac ymdrin â lefel y clefyd sydd eisoes yn bodoli yno. Er mwyn gwneud hyn mae angen newid y mesurau rheoli gwartheg i sicrhau eu bod yn ddigonol i atal clefyd rhag cyrraedd yr ardal a dileu'r haint sy'n bodoli yno ar hyn o bryd.
- Mae bioddiogelwch ar ffermydd yn bwysig i ddiogelu rhag unrhyw ledaeniad lleol a gallai brechu moch daear gyfrannu at helpu i atal y clefyd rhag sefydlu ei hun yn y boblogaeth moch daear.

Beth rydym yn gobeithio ei gyflawni

- Os yw sefyllfa'r clefyd yn yr ardal hon yn gwella, rhagwelwn y gallwn ystyried y bydd yn datblygu i fod yn Ardal TB Isel, ar y sail bod lefel y clefyd yn lleihau i lefel sy'n gymharol â'r Ardal TB Isel gyfredol.

Ardal TB Uchel (Gorllewin)

Disgrifiad o'r ardal

Mae'r ardal yn ffurfio triongl bras yn y de-orllewin ac yn cynnwys Sir Benfro a rhannau o Sir Gaerfyrddin, Ceredigion ac Abertawe. Ffermydd eidion bach yw mwyafrif y buchesi. Fodd bynnag, mae yna fwy o wartheg godro o ran cyfanswm gan fod yr ardal yn cynnwys llawer o

fuchesi godro mawr. Mae'r ardal yn cynnwys ein Hardal Triniaeth Ddwys - ardal lle rydym wedi cyflwyno ystod o fesurau i leihau lefel yr haint ymhob rhywogaeth yn yr ardal.

Sefyllfa gyfredol y clefyd

- Mae TB wedi bod yn bresennol mewn rhai rhannau o'r ardal ers i'r Ymgyrch Ddileu Genedlaethol ddechrau ym 1935.
- Mae ganddi un o'r cyfraddau uchaf o TB yng Nghymru gyda thua 11% o'r holl fuchesi o dan gyfyngiadau oherwydd TB, er bod hyn wedi gostwng o 16% ar ddechrau 2009.
- Yr ardal hon sydd â'r achosion mwyaf difrifol o ran hyd y cyfyngiadau a nifer yr adweithyddion fesul achos.
- Mae llawer o adweithyddion wedi bod yn Adweithyddion Amhendant yn y gorffennol.
- Mae ein harolwg o foch daear marw wedi cadarnhau presenoldeb TB mewn cyfran o'r poblogaethau moch daear lleol.

Beth sy'n ysgogi'r clefyd?

- Mae llawer o ffermydd godro yn yr ardal ac mae'r buchesi yn llawer mwy na'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Ymddengys bod lledaeniad lleol yn ffactor arwyddocaol yn yr ardal ac mae hyn yn cael ei ategu gan y nifer sylweddol o achosion newydd a ddatgelir gan brofion goruchwylio cyffiniol (31% yn yr Ardal Triniaeth Ddwys). Mae hyn yn awgrymu bod yna bwysau haint sylweddol o du allan y fuches.
- O ran gwartheg a symudwyd i ddaliadau yn yr ardal, roedd y mwyafrif yn dod o Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion.
- Mae llawer o achosion ailadroddus sy'n awgrymu naill ai cyfradd ail-heintio uchel neu haint sy'n parhau yn y fuches hyd yn oed ar ôl iddi gael ei datgan yn fuches heb TB swyddogol.

Beth sydd angen ei wneud?

Mae angen mesurau rheoli i fynd i'r afael â'r ffyrdd mae'r clefyd yn lledaenu o fewn a rhwng buchesi o'r ffynonellau haint hysbys:

- Lleihau'r perygl o haint yn lledaenu drwy symud gwartheg ac o foch daear heintiedig;
- Dod o hyd i wartheg heintiedig cyn gynted â phosibl;
- Cael gwared ar y clefyd i'w atal rhag heintio eraill yn y fuches ac mewn buchesi eraill;
- Dileu'r haint er mwyn i ni fod yn fodlon ei fod wedi diflannu.

Beth rydym yn gobeithio ei gyflawni

- Y nod byr dymor ar gyfer yr ardal hon yw lleihau nifer yr achosion a difrifoldeb pob achos (mesurir yn ôl hyd y cyfyngiadau).
- Nod byr dymor arall ar gyfer yr ardal yw ymdrin â nifer yr achosion 'cronig' mewn buchesi. Mae'r achosion hyn yn cynnwys y rhai sy'n barhaus o ran hyd, ond hefyd yn cynnwys achosion o haint yn cael ei ailadrodd.
- Yn yr hirdymor, os yw sefyllfa'r clefyd yn yr ardal hon yn gwella, gallwn ystyried y bydd yn datblygu i fod yn Ardal TB Canolradd, ar y sail bod lefel y clefyd yn lleihau i lefel sy'n gymharol â'r Ardaloedd TB Canolradd cyfredol.

Ardal TB Uchel (Ffin)

Disgrifiad o'r ardal

Mae'r ardal yn rhedeg ar hyd y ffin, o ogledd Powys i Went. Mae mwyafrif y symudiadau gwartheg yn lleol, o fewn yr ardal neu o siroedd cyfagos yn Lloegr ble mae TB yn endemig hefyd. Mae gan yr ardal gyfran fawr o fuchesi sugno eidion.

Sefyllfa gyfredol y clefyd

- Mae TB yn endemig yn yr ardal a dyma'r ardal sydd â'r nifer uchaf o achosion newydd.
- Mae tua 7% o fuchesi o dan gyfyngiadau oherwydd TB o gymharu â 10% ar ddechrau 2009.
- Mae gan fwyafrif yr achosion newydd ychydig o adweithyddion ac maent yn para am lai na blwyddyn, fwy na thebyg oherwydd bod yr ardal yn ardal eidion yn bennaf. Fodd bynnag, mae yna ychydig o fuchesi, buchesi godro mawr yn bennaf, sydd ag achosion difrifol sy'n para hyd at bum mlynedd gyda rhai yn para dros 10 mlynedd.
- Mae cyfran uchel o fuchesi yn cael achos arall o TB o fewn 18 mis o godi'r cyfyngiadau.

Beth sy'n ysgogi'r clefyd?

- Mae'n debygol bod llawer o symudiadau lleol yn arwain at symud gwartheg heintiedig sydd heb eu darganfod.
- Mae achosion ailadroddus yn uchel yn yr ardal a allai fod yn digwydd yn sgîl ailgyflwyno oherwydd ail-heintio neu am fod yr haint yn parhau yn y fuches ar ôl codi'r cyfyngiadau.
- Mae canran yr achosion TB a ganfuwyd yn sgil profion cyffiniol yn uchel ac yn awgrymu bod lledaeniad lleol yn digwydd drwy gysylltiad uniongyrchol neu anuniongyrchol (gwartheg a bywyd gwyllt).
- Mae'r arolwg o foch daear marw wedi cadarnhau bod y clefyd yn bresennol mewn cyfran o'r poblogaethau moch daear lleol.
- Mae yna rywfaint o dystiolaeth i ddangos bod lefel isel o'r haint yn bresennol mewn bywyd gwyllt arall fel ceirw a'r baedd gwyllt yn nwyrain Sir Fynwy.

Beth sydd angen ei wneud?

Mae angen mesurau rheoli i fynd i'r afael â'r ffyrdd mae'r clefyd yn lledaenu o fewn a rhwng buchesi o'r ffynonellau haint hysbys:

- Dod o hyd i wartheg heintiedig cyn gynted â phosibl;
- Cael gwared ar y clefyd i'w atal rhag heintio eraill yn y fuches a buchesi eraill;
- Lleihau'r perygl o haint yn lledaenu drwy symud gwartheg a thrwy foch daear heintiedig;
- Dileu'r haint er mwyn i ni fod yn fodlon ei fod wedi diflannu.

Beth rydym yn gobeithio ei gyflawni

- Y nod byr dymor ar gyfer yr ardal hon yw lleihau nifer yr achosion a difrifoldeb pob achos (mesurir yn ôl hyd y cyfyngiadau).

- Yn yr hirdymor, os yw sefyllfa'r clefyd yn yr ardal hon yn gwella, gallwn ystyried y bydd yn datblygu i fod yn Ardal TB Ganolradd, ar y sail bod lefel y clefyd yn lleihau i lefel sy'n gymharol â'r Ardaloedd TB Canolradd cyfredol.

Arolwg o Foch Daear Marw Cymru Gyfan

Ers mis Medi 2014, mae TB buchol mewn moch daear a ganfuwyd yn farw wedi cael ei fonitro ledled Cymru. Mae Ffigurau 4 a 5 yn cyflwyno canlyniadau Arolwg o Foch Daear Marw Cymru Gyfan (yn cynnwys ffigurau yr Arolwg yn yr Ardal Triniaeth Ddwys). Dyma'r canlyniadau o fis Medi 2014 i ddiwedd mis Hydref2016:

Ffigur 4:

Y nifer a gasglwyd ac a brofwyd[3]	648
Y nifer y meinweoedd meithrin a brofodd yn bositif am *M.bovis*	43
Y nifer oedd yn negatif	550

O'r 648 o garcasau moch daear a brofwyd, profodd 43 (6.6%) yn bositif am *M. bovis*. Rydym yn disgwyl 55 chanlyniad arall.

Mae Ffigur 5 ar y dudalen nesaf yn dangos bod lefelau'r haint yn amrywio mewn moch daear yng Nghymru.

[3] Ac eithrio'r rhai sy'n anaddas i'w profi.

Ffigur 5:

Cyflwyniadau a chanlyniadau Ardaloedd Triniaeth Ddwys ac Arolwg o Foch Daear Marw Cymru Gyfan Medi 2014 i Hydref 2016.



Mesurau rheoli arfaethedig

Bydd ein dull o ymdrin â TB ym mhob ardal yn seiliedig ar bedair egwyddor sylfaenol rheoli clefydau heintus:

- Ei gadw allan – atal clefyd rhag lledaenu;
- Ei ddarganfod yn gyflym – dod o hyd i wartheg heintiedig cyn gynted â phosibl cyn iddynt gael cyfle i heintio eraill;
- Ei rwystro rhag lledaenu – symud gwartheg heintiedig yn fuan ac atal y clefyd rhag lledaenu i anifeiliaid eraill;
- Cael gwared arno – dileu'r clefyd ar ôl canfod yr haint.

Bydd y mesurau rheoli sydd ar waith ym mhob ardal yn cael eu hategu gan ein mesurau rheoli cenedlaethol a'n mesurau ategol ni. Mae'r dull hwn, sy'n targedu ardaloedd yn fwy penodol, yn ein galluogi i deilwra gwahanol ddulliau rheoli ac atal clefydau ym mhob ardal:

<u>Ardal TB Isel</u>

Ei gadw allan	Ei ddarganfod yn gyflym	Ei rwystro rhag lledaenu	Cael gwared arno
Bydd rhai o eithriadau'r Profion Cyn Symud yn cael eu dileu fel bod pob anifail sy'n symud i'r ardal yn cael Prawf Cyn Symud - ni fydd rhaid i wartheg a symudir o'r ardal neu o fewn yr ardal gael prawf mwyach.	Parhau i brofi buchesi'n flynyddol i sicrhau ein bod ni'n dal y clefyd cyn gynted â phosibl.	Mae Adweithyddion Amhendant sy'n cael eu dehongli'n safonol mewn buchesi sydd â statws heb TB swyddogol wedi'i ddiddymu yn cael eu hailbrofi gan ddefnyddio'r prawf gama interfferon, mae anifeiliaid positif yn cael eu symud a bydd Adweithyddion Amhendant sy'n profi'n glir yn cael eu cyfyngu i'w buches am weddill eu hoes.	Bydd profion gama interfferon yn parhau i gael eu defnyddio ar gyfer mwyafrif yr achosion, i'n helpu ni i gael gwared ar y clefyd yn y fuches yn drylwyr a chyflym.
Cynigir ymweliadau Cymorth TB i bob ceidwad yn yr ardal ac fe'u hanogir i fanteisio arnynt.	Bydd gwartheg a symudwyd i'r ardal o ardal clefyd uwch yn gorfod cael Prawf ar ôl Symud.		
	Mae buchesi risg uchel yn cael eu nodi yn ôl eu ffactorau risg a'u profi bob chwe mis.		
	Adolygu'r defnydd o Unedau Pesgi		

	Eithriedig.		

Ardaloedd TB Canolradd

Ei gadw allan	Ei ddarganfod yn gyflym	Ei rwystro rhag lledaenu	Cael gwared arno
Bydd rhai o eithriadau'r Profion Cyn Symud yn cael eu dileu fel bod pob anifail sy'n symud i'r ardal yn cael Prawf Cyn Symud.	Parhau i brofi buchesi'n flynyddol i sicrhau ein bod ni'n dal y clefyd cyn gynted â phosibl.	Mae Adweithyddion Amhendant sy'n cael eu dehongli'n safonol mewn buchesi sydd â statws heb TB swyddogol wedi'i ddiddymu yn cael eu hailbrofi gan ddefnyddio'r prawf gama interfferon, mae anifeiliaid positif yn cael eu symud a bydd Adweithyddion Amhendant sy'n profi'n glir yn cael eu cyfyngu i'w buches am weddill eu hoes.	Bydd profion gama interfferon yn parhau i gael eu defnyddio ar gyfer y mwyafrif o achosion, i'n helpu ni i gael gwared ar y clefyd yn y fuches.
	Bydd gwartheg a symudwyd i'r ardal o ardal debyg neu uwch, ond sydd ar wahân yn ddaearyddol, yn gorfod cael Prawf Cyn Symud.		
	Mae buchesi risg uchel yn cael eu nodi yn ôl eu ffactorau risg a'u profi bob chwe mis.		

Ardaloedd TB Uchel

Ei gadw allan	Ei ddarganfod yn gyflym	Ei rwystro rhag lledaenu	Cael gwared arno
Gwaith tuag at ehangu Cymorth TB i ddarparu cyngor milfeddygol am ddim i bob buches yn yr ardal.	Cynhelir profion ar y fuches gyfan bob chwe mis i ganfod yr haint yn gynt.	Defnyddir mwy o fesurau rheoli symud buches cyfyngedig (allanol a mewnol) i leihau'r siawns o'r clefyd yn lledaenu o fewn buchesi.	Bydd y prawf gama interfferon yn parhau i gael ei ddefnyddio ar sail ad hoc ac ar gyfer achosion newydd a chronig.

Bydd Hysbysiadau Gwella Bioddiogelwch yn cael eu cyflwyno am bob achos statws heb TB swyddogol wedi'i ddiddymu yn yr ardal sy'n gofyn i geidwaid wella eu bioddiogelwch yn unol â'r gofynion (darperir canllawiau).		Cael gwared ar Adweithyddion Amhendant fel adweithyddion ym mhob achos statws heb TB swyddogol wedi'i ddiddymu gyda phrofion clir, Adweithyddion Amhendant difrifol i'w cyfyngu i'r fuches am oes.	Mae profion gama interfferon yn orfodol ar gyfer achosion statws heb TB swyddogol wedi'i ddiddymu sydd wedi cael achos yn y 18 mis blaenorol a bydd profion gama interfferon dilynol yn cael eu defnyddio pan nodir llawer o achosion o'r clefyd mewn grwpiau rheoli.
Rhoi ymyriadau priodol ar waith i dorri llwybrau trosglwyddo'r clefyd rhwng gwartheg a bywyd gwyllt.		Ni fydd modd defnyddio'r prawf clirio (sy'n galluogi buches i ddod yn rhydd o gyfyngiadau) fel Prawf Cyn Symud.	

Cynigion eraill

<u>Bioddiogelwch</u>

Gall bioddiogelwch a hwsmonaeth anifeiliaid da leihau'r risg o haint o wartheg a bywyd gwyllt. Rhan allweddol o'n rhaglen dileu TB yw datblygu a hyrwyddo arferion bioddiogelwch a hwsmonaeth gwell.

Rydym yn bwriadu datblygu pecyn bioddiogelwch ar-lein safonol i gynorthwyo ceidwaid i feithrin a gweithredu arferion bioddiogelwch a hwsmoniaeth gwell. Bydd y pecyn yn cynnwys canllawiau ar safonau bioddiogelwch a ddatblygwyd ac y cytunwyd arnynt gyda'r diwydiant a byddant ar gael yn eang. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o waith blaenorol yn y maes hwn ac wedi treialu gwahanol adnoddau prototeip i asesu bioddiogelwch. Bydd y pecyn safonol yn adeiladu ar y gwaith hwn.

<u>Iawndal</u>

Rydym yn talu iawndal i geidwaid am unrhyw anifail a laddwn oherwydd TB a thros y deng mlynedd diwethaf rydym wedi gwario bron i £150 miliwn ar iawndal TB yn unig. Daeth Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2016 i rym ar 1 Ebrill 2016 ac mae'n darparu pwerau i ni leihau iawndal i'r ceidwaid hynny sydd wedi torri'r rheolau. Cyflwynwyd y rheolau hyn i annog perchnogion buchesi i fabwysiadu a dilyn arferion ffermio a bioddiogelwch da a chydymffurfio â'r rheolau. Rydym yn bwriadu parhau i annog ceidwaid i ddilyn arferion ffermio da ac ystyried ffyrdd eraill o gysylltu iawndal â gweithredu arferion bioddiogelwch a hwsmoniaeth da.

Hefyd, cyflwynwyd terfyn o £15,000 fesul anifail ar daliadau iawndal. Ar hyn o bryd rydym yn derbyn rhwng £2-3 miliwn o gyllid gan y Comisiwn Ewropeaidd a fydd yn cael ei golli pan fyddwn yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. O ganlyniad, rydym yn bwriadu lleihau'r terfyn i

£5,000 i sicrhau bod y system werthuso'n fwy cynaliadwy yn ariannol. Pe bai'r terfyn wedi bod ar waith, byddai £300,000 wedi'i arbed yn y 12 mis diwethaf hyd at fis Ebrill 2016 a byddai wedi effeithio ar lai na chant o anifeiliaid. Anogir perchnogion anifeiliaid gwerth uchel i edrych am yswiriant ar gyfer unrhyw anifail sy'n werth sy'n fwy na £5,000.

Deallwn fod angen symud gwartheg i fferm gyfyngedig am nifer o resymau fel lles yr anifail, cyflawni amodau contract ac ar gyfer bridio. O dan yr amgylchiadau hyn, gall yr APHA roi trwydded i geidwad ddod ag anifail i fuches ar ôl y Prawf Cyfnod Byr cyntaf (yn amodol ar Asesiad Risg Milfeddygol) ond, os yw'r anifail yn cael ei ladd wedyn oherwydd TB cyn i'r fuches gael statws heb TB, bydd yr iawndal yn cael ei leihau ar gyfer yr anifail hwnnw. Mae hyn yn galluogi'r ceidwad i ailstocio ond mae hefyd yn golygu ei fod yn rhannu'r risg ariannol o ddod â gwartheg iach i fuches sydd wedi cael problem gyda TB.

Rydym yn bwriadu ymestyn y trefniant hwn er mwyn lleihau iawndal ar gyfer symud gwartheg rhwng unedau o fewn yr un fuches pan fo'r achos wedi bod yno am 18 mis neu fwy neu fod haint wedi ailddigwydd h.y. buches gronig. Y rheswm am hyn yw bod sefyllfa'r clefyd mewn llawer o'n hachosion o fuchesi cronig yn cael ei chymhlethu gan y ffaith eu bod wedi'u lleoli ar fwy nag un safle a bod llawer o symudiadau o fewn y fuches. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i ddileu'r clefyd gan fod anifeiliaid yn symud yn barhaus. Nod y cynnig hwn yw cael y ceidwad i newid ei arferion busnes gan symud anifeiliaid rhwng unedau gwahanol cyn lleied â phosibl a, phan fo'n gwneud hynny, eu symud gyda mesurau lleihau risg priodol gyda'r nod o:

- Atal cyflwyno gwartheg statws clefyd isel i uned reoli sydd wedi cael problem gyda TB;
- Atal gwartheg â statws clefyd uchel rhag cyflwyno'r clefyd i uned reoli sydd â statws clefyd isel.

Byddai ceidwaid sydd ag achos newydd o TB yn cael gwybod bod y rheolau hyn yn berthnasol os ydynt yn parhau i fod o dan gyfyngiadau ar ôl 18 mis. Bydd achosion cyfredol yn cael cyfnod o amser i newid arferion busnes i leihau effaith y newid polisi hwn.

Byddwn hefyd yn parhau i adolygu'r system iawndal TB i sicrhau ei bod yn cymell ceidwaid i gadw clefyd o'u buchesi. Bydd angen i adolygiadau'r dyfodol ystyried effaith colli arian Ewropeaidd yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd.

<u>Trawsgydymffufio</u>

Mae sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion yn allweddol ar gyfer sicrhau bod Rhaglen Dileu TB yng Nghymru yn cael ei darparu'n llwyddiannus. Mae Taliadau Gwledig Cymru eisoes yn cyflwyno lleihad canrannol ar daliadau cynlluniau PAC sy'n cael eu hawlio gan geidwaid a gafodd eu profion TB yn hwyr. Mae'r taliadau yn cael eu lleihau 1, 3 neu 5% yn dibynnu ar ba mor hwyr yw'r prawf. Os bydd prawf gorfodi APHA yn cael ei drefnu neu ei wrthod neu fod mwy nag un prawf TB yn hwyr bydd lefel y gosb ariannol yn cynyddu, hyd at uchafswm o 100% o unrhyw daliadau PAC sy'n ddyledus i geidwad mewn unrhyw flwyddyn galendr.

Yn unol â mentrau eraill o fewn ein Rhaglen i hyrwyddo newidiadau ymddygiad cadarnhaol a chydymffurfio â'r gofynion, rydym yn cynnig cysylltu cydymffurfiaeth ymhellach â thaliadau cymhorthdal cynllun y Polisi Amaethyddol Cyffredin (neu unrhyw gynllun talu arall y bydd y diwydiant yn derbyn cymhorthdal ganddo yn y dyfodol).

Cynigir y dylid cyflwyno cosbau tebyg ar gyfer achosion eraill o dorri Gorchymyn TB (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd), er enghraifft pan fo ceidwaid yn:

- Methu â chydymffurfio gyda gofynion Profion Cyn Symud;
- Methu â chydymffurfio gyda thelerau Hysbysiad Gofynion Milfeddygol;
- Symud gwartheg heb drwydded briodol.

Unedau Pesgi

Uned Besgi Gymeradwy yw uned sy'n gallu cymryd gwartheg o fuches gyfyngedig ac anghyfyngedig. Mae Unedau Pesgi Eithriedig yn darparu llwybr i gynhyrchwyr cig eidion besgi gwartheg. Gall yr Uned Besgi Eithriedig dderbyn gwartheg o ffermydd sydd â statws heb TB swyddogol, a fyddai angen Prawf Cyn Symud fel rheol, heb orfod profi'r anifeiliaid.

Er mwyn atal symud anifeiliaid anghyfyngedig i'r ardal, ni fyd Unedau Pesgi Cymeradwy yn cael eu caniatáu o hyd yn yr Ardal Risg Isel. Er mwyn lleihau effaith anifeiliaid heb eu profi yn symud i'r ardal rydym yn ystyried dau ofyniad arall:

- Bydd rhaid i Unedau Pesgi Eithriedig gydymffurfio â rheolau mwy llym, er enghraifft profion bob chwe mis; neu
- Ni fydd Unedau Pesgi Eithriedig yn cael eu caniatáu yn yr Ardal Risg Isel mwyach a bydd awdurdod y rhai sydd wedi'u hawdurdodi ar hyn o bryd yn cael ei ddiddymu (ar ôl cyfnod o rybudd).

Byddwn yn penderfynu pa opsiwn yw'r mwyaf cymesur gan ystyried yr adborth a dderbyniwn fel rhan o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.

Anifeiliaid nad ydynt yn rhai buchol

Mae Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2011 yn rhoi pwerau i APHA ymdrin yn effeithiol ag achosion o TB mewn anifeiliaid penodol nad ydynt yn rhai buchol – camelidau o Dde America (e.e. lamaod a alpacaod), geifr a cheirw – tebyg i'r pwerau sydd ar gael i wartheg. Mae'r rhywogaethau hyn yn dueddol o gael yr haint *Mycobacterium bovis (M. bovis)* ond ystyrir bod y risg o haint ac o'r anifeiliaid hyn yn ei drosglwyddo i wartheg, bywyd gwyllt neu bobl yn isel. Byddwn, fodd bynnag, yn adolygu ein dull goddefol cyfredol o oruchwylio'r anifeiliaid hyn a'r posibilrwydd o ymestyn Gorchymyn 2011 i gynnwys rhywogaethau eraill sy'n dueddol o gael yr haint fel defaid a geifr.

Prynu Gwybodus

Ledled Cymru, gall gwartheg sy'n cael eu prynu fod yn ffynhonnell haint newydd. Os ydym am ddileu TB, mae angen i geidwaid gymryd mwy o gyfrifoldeb am reoli'r risg hon. I'n helpu gyda hyn rydym yn annog "Prynu Gwybodus", sy'n ceisio darparu gwybodaeth am y profion a hanes clefydau'r anifail a'r fuches y daw ohoni i geidwaid. Drwy ystyried y wybodaeth hon gall ceidwaid wneud asesiad mwy cywir o lefel risg TB y gwartheg a brynant. Er enghraifft, mae buchesi sydd â hanes o TB tua phedair gwaith yn fwy tebygol o gael achos newydd na buchesi nad oes ganddynt hanes o'r clefyd ac mae prynu gwartheg o'r buchesi hyn yn fwy o risg na phrynu gwartheg o fuchesi nad ydynt wedi cael TB o gwbl.

Y llynedd, cyflwynwyd grant i helpu marchnadoedd da byw i uwchraddio eu cyfleusterau fel y gallant arddangos gwybodaeth TB y gwartheg sy'n cael eu gwerthu yn amlwg. Derbyniodd deg ymgeisydd gyllid gennym a bydd y grant ar gael eto i alluogi mwy o farchnadoedd i uwchraddio eu cyfleusterau.

Er mwyn cefnogi'r prosiect Prynu Gwybodus ymhellach rydym wedi edrych ar sut y cynorthwyodd Masnachu ar sail Risg i ddileu TB buchol o Awstralia a sut mae'n cyfrannu at ddileu'r clefyd yn Seland Newydd. Yn yr hirdymor rydym yn bwriadu cyflwyno system debyg yn seiliedig ar y cynlluniau dosbarthu llwyddiannus a ddefnyddiwyd yn y gwledydd hyn.

Defnyddiwyd cymysgedd o fesurau risg daearyddol a buches yn Awstralia. Sefydlwyd ardaloedd lle roedd lefelau'r clefyd yn debyg a chawsant eu gweinyddu fel unedau ar wahân. Dosbarthwyd buchesi yr ardaloedd hyn ar sail eu statws iechyd (h.y. a oedd clefyd wedi'i ddarganfod). Os oeddynt wedi bod yn glir am hyd at 8 mlynedd ar ôl yr adweithydd diwethaf byddent yn cael eu dosbarthu fel 'cadarnhawyd yn rhydd'. Roedd Masnachu ar sail Risg yn orfodol h.y. gallai buchesi ond gwerthu i fuches o statws TB cyfwerth neu is ac roedd buchesi a gadarnhawyd fel rhai a oedd yn rhydd o TB yn cael prisiau premiwm a gallent symud i ardaloedd daearyddol eraill.

Yn Seland Newydd, ble mae ceidwaid yn cyfrannu at drefniadau llywodraethu TB, datblygwyd cynllun Masnachu ar sail Risg lle mae pob buches yn cael sgôr risg sy'n dosbarthu ffermydd yn ôl nifer y blynyddoedd maent wedi bod yn glir (C1 i C10). Mae buchesi'n cael dosbarthiad statws is pan fo gwartheg yn cael eu prynu o fuches sydd â statws is. Mae hyn yn creu premiwm ar gyfer gwartheg di-glefyd, yn gwobrwyo ceidwaid sy'n cadw'n glir o'r clefyd, ac yn cymell mesurau rheoli'r clefyd drwy greu mesur gweladwy o berfformiad ceidwaid. Mae gofyn i geidwaid lenwi ffurflen orfodol wrth werthu sy'n gofyn iddynt ddarparu eu statws TB.

Yn y ddwy wlad, er mwyn i Fasnachu ar sail Risg lwyddo, mae angen i werthwyr a phrynwyr gyfnewid gwybodaeth fel eu bod yn ymwybodol o statws y fuches a'r risg bosibl. Yn y dyfodol, bwriedir mabwysiadu cynllun Masnachu ar sail Risg tebyg yng Nghymru, ar sail wirfoddol yn ddelfrydol ond ar sail orfodol os bydd rhaid, ac mewn cydweithrediad â'r diwydiant.

<u>Llywodraethu</u>

Mae Bwrdd y Rhaglen Dileu TB yn cyfeirio a rheoli'r rhaglen yn gyffredinol ac yn monitro sut mae'n cael ei gweithredu. Mae'r Bwrdd yn cael ei gadeirio gan Brif Swyddog Milfeddygol Cymru ac yn cynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol:

- Y diwydiant ffermio;
- Y proffesiwn milfeddygol;
- Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion;
- Llywodraeth Cymru.

Yn 2008, sefydlwyd tri bwrdd cyflawni rhanbarthol ar gyfer dileu TB sy'n cynnwys ceidwaid-wirfoddolwyr a chynrychiolwyr eraill o'r diwydiant ffermio lleol.

Rydym yn cynnig ad-drefnu lleoliad a chyfansoddiad y byrddau i fod yn gyson â'r Ardaloedd TB Rhanbarthol (Ardaloedd TB Uchel, TB Canolradd a TB Isel). Rydym hefyd yn cynnig adolygu'r byrddau i sicrhau bod ganddynt gyfrifoldeb addas am gyfathrebu, hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Ddileu ym mhob rhanbarth.

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Beth yw eich barn chi?

Hoffem gael eich sylwadau ar y cynigion a gyflwynwyd yn y ddogfen hon. Byddem yn croesawu eich ymatebion i'r cwestiynau canlynol yn arbennig:

1. **Ydych chi'n cytuno ag unrhyw un o'r cynigion yn y ddogfen hon?** (nodwch pa rai rydych chi'n cytuno â nhw a pham)

2. **Ydych chi'n anghytuno ag unrhyw un o'r cynigion yn y ddogfen hon?** (nodwch pa rai rydych chi'n anghytuno â nhw a pham)

3. **A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau am sut i wella'r mesurau rheoli a gynigir yn y ddogfen hon neu am y ffordd orau o'u rhoi ar waith?**

4. **A oes unrhyw fesurau rheoli eraill y dylem eu hystyried i helpu i gyflawni nodau'r ddogfen hon?**

5. **Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau am gynigion penodol. Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar agweddau eraill ar y Rhaglen Dileu TB, nodwch nhw isod.**

Eich manylion

Eich enw:	
Eich sefydliad (os yn berthnasol):	
Eich cyfeiriad:	
Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu darparu i'r cyhoedd mewn adroddiad ar ein gwefan. Fyddai'n well gennych chi i'ch ymateb fod yn ddienw?	
Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio orau? • Ffermwr/ceidwad • Cynrychiolydd neu sefydliad o'r diwydiant ffermio • Arwerthwr da byw • Aelod o'r cyhoedd • Milfeddyg • Sefydliad bywyd gwyllt • Arall	

Atodiad A – Crynodeb o'r newidiadau arfaethedig

	Ardal TB Isel	Ardal(oedd) TB Canolradd	Ardal(oedd) TB Uchel
Profion goruchwylio	Blynyddol (buchesi risg uchel – bob chwe mis)	Blynyddol (buchesi risg uchel – bob chwe mis)	Bob chwe mis
Prawf Cyn Symud	Nac Oes	Oes	Oes
Prawf ar ôl Symud	Oes	Oes	Nac oes
Prawf Gama Interfferon gorfodol	Achosion newydd	Achosion newydd	Achosion cronig
Adweithyddion Amhendant safonol (mewn achosion statws heb TB swyddogol wedi'i ddiddymu)	Ailbrofi gan ddefnyddio prawf gama interfferon, anifeiliaid clir yn cael eu cyfyngu i'w buches	Ailbrofi gan ddefnyddio prawf gama interfferon, anifeiliaid clir yn cael eu cyfyngu i'w buches	Lladd fel adweithyddion
Adweithyddion Difrifol (mewn achosion statws heb TB swyddogol wedi'i ddiddymu)	2 x Adweithydd Amhendant wedi'u lladd fel adweithyddion	2 x Adweithydd Amhendant wedi'u lladd fel adweithyddion	2 x Adweithydd Amhendant wedi'u lladd fel adweithyddion, anifeiliaid clir yn cael eu cyfyngu i'w buches
Rheoli achos	Dim newid	Dim newid	Prawf clirio ddim i'w ddefnyddio fel Prawf Cyn Symud
Hysbysiadau Gwella Bioddiogelwch	Dim newid	Dim newid	Achosion statws heb TB swyddogol wedi'i ddiddymu
Unedau Pesgi Cymeradwy	Ddim yn cael ei ganiatáu	Dan do yn unig	Dan do yn unig
Unedau Pesgi Eithriedig	Dan do yn unig neu ddim yn cael ei ganiatáu	Dan do yn unig	Dan do yn unig
Cymorth TB	Ffermydd lle ceir achos o TB (un ymweliad i bob fferm)	Ffermydd lle ceir achosion o TB	Pob fferm
Moch daear	Monitro lefel yr haint	Annog brechu (lle bo ar gael)	Ystyried a datblygu ffyrdd o dorri'r cylch trosglwyddo rhwng gwartheg a moch daear ble gellir dangos bod moch daear yn cyfrannu at y broblem mewn achosion buches cronig.

Atodiad B - Geirfa

Uned Besgi Gymeradwy (AFU) – lle i besgi gwartheg sydd wedi profi'n glir o ddaliadau TB cyfyngedig.

Profion cyffiniol - Profion ychwanegol sy'n cael eu cynnal ar fuchesi sy'n ffinio ag achosion o statws heb TB swyddogol wedi'i ddiddymu (OTFW), er mwyn profi a yw'r clefyd wedi lledaenu.

Achos buches gronig – Caiff buches 'gronig' ei diffinio fel buches sydd â statws heb TB wedi'i ddiddymu (OTFW) ac:

- Sydd wedi bod â statws heb TB wedi'i ddiddymu (OTFW) am 18 mis neu fwy, NEU
- A ddaeth i fod yn OTFW cyn y prawf gwirio 12 mis, yn dilyn achos OTFW cynharach, OND ac eithrio'r achosion ailadroddus o TB lle mae'r holl adweithyddion yn anifeiliaid a brynwyd i mewn ers cau'r achos blaenorol, oni bai nad yw gwybodaeth ddilynol am deip molecwlaidd yn cyd-fynd â'r tarddiad prynu.

Cymorth TB – Cymorth i geidwaid gwartheg sydd wedi'u heffeithio gan TB.

Uned Besgi Eithriedig (EFU) – Mae'r unedau hyn yn darparu llwybr i gynhyrchwyr cig eidion besgi gwartheg heb orfod Profi Cyn Symud. Mae'n rhaid cael y gwartheg o fuches sydd â statws heb TB swyddogol.

Endemig – clefyd sy'n bresennol drwy'r amser i raddau mwy neu lai mewn poblogaeth.

Genoteip – Cyfansoddiad genetig unigolyn (yn yr achos hwn, cyfansoddiad genetig y bacteriwm *Mycobacterium bovis*).

Prawf gama interfferon (IFN-γ) – Prawf gwaed mewn labordy, ar gyfer gwneud diagnosis o dwbercwlosis buchol. Gall y prawf nodi anifeiliaid heintiedig yn gynt yn y broses heintio na phrawf croen ac mae'r prawf croen yn colli rhai anifeiliaid heintiedig.

Adweithydd Amhendant (IR) – Anifail sydd wedi cael darlleniadau rhwng clir (pasio) ac adweithydd (methu) yn y prawf croen twbercwlin. Gellir ystyried gwartheg yn Adweithyddion Amhendant ar ddwy lefel:

- Difrifol – lle cafwyd dehongliad mwy llym o'r canlyniadau er mwyn cynyddu sensitifrwydd profi mewn buchesi lle mae yna arwyddion bod yr haint yn bresennol.

- Safonol – lle cafwyd y dehongliad arferol o'r canlyniadau am nad oedd unrhyw amgylchiadau eithriadol.

Statws heb TB swyddogol wedi'i ddiddymu (OTFW) - Caiff statws heb TB swyddogol buches ei ddiddymu pan fo mwy nag un adweithydd yn cael eu canfod mewn prawf goruchwylio neu fod un adweithydd yn unig yn cael ei ganfod ond bod tystiolaeth ychwanegol yn awgrymu bod yr haint yn bresennol. Mae angen i fuchesi OTFW gael dau brawf TB clir yn olynol cyn y gellir codi'r cyfyngiadau symud.

Prawf TB ar ôl Symud / Prawf TB Cyn symud **(PoMT / PrMT)**.

Bwrdd y Rhaglen – Sefydlwyd Rhaglen Bwrdd Dileu TB yn 2008 ac mae'n gyfrifol am ystyried ac argymell polisïau rheoli TB buchol strategol a goruchwylio'r gwaith o'u cyflawni

yng Nghymru. Mae'r aelodau'n cynnwys y diwydiant ffermio, y proffesiwn milfeddygol, APHA a Llywodraeth Cymru.

Byrddau Rhanbarthol - Hefyd wedi'u sefydlu yn 2008, mae yna dri Bwrdd Rhanbarthol ar gyfer Cyflawni'r Gwaith Dileu sy'n cwmpasu'r gogledd, y de-ddwyrain a'r de-orllewin. Mae'r Byrddau'n sicrhau bod y gwaith o gyflawni'r polisi'n ymwneud yn benodol ag amodau rhanbarthol a lleol a'i fod yn cael ei weithredu'n effeithiol. Mae'r byrddau rhanbarthol hyn yn cyfuno cyfrifoldebau cyfredol ac yn cynnwys cynrychiolwyr o APHA, y diwydiant ffermio, y proffesiwn milfeddygol, arwerthwyr, adrannau Safonau Masnachu Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru.

Cyfyngiadau TB – Cyfyngiadau symud a osodir ar wartheg a/neu ddaliad o ganlyniad i ddarganfod tystiolaeth o haint TB neu amheuaeth bod yr haint yn bresennol.